



## **Polisiâu a Gweithdrefnau Rheoleiddio'r Gweithlu**

### **Polisi ar gyhoeddi gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr, unigolion cofrestredig a phobl eraill sydd ynghlwm â gweithrediadau Gofal Cymdeithasol Cymru**

#### **1. Cyflwyniad – rheswm dros y polisi**

- 1.1 Mae Adran 80 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”) yn gofyn i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr.
- 1.2 Mae'r Ddeddf yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys ar y gofrestr ac mae'r dogfennau canlynol yn darparu rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ei gorfodi a'i chaniatáu i'w chynnwys yn y gofrestr a'i chyhoeddi:
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
  - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
  - Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017
- 1.3 Mae dyletswydd ar Ofal Cymdeithasol Cymru i ddiogelu'r cyhoedd; mae rhoi mynediad i'n cofrestr a rhoi gwybod i bobl am y materion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. Fodd

bynag, rhaid i ni roi sylw dyledus i hawliau'r unigolion sydd ynghlwm ag achosion addasrwydd i ymarfer, yn ogystal â budd y cyhoedd yn yr achosion hynny.

- 1.4 Wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chyhoeddi, rhaid i ni gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol sy'n codi o'r Ddeddf, ei rheolau a'i rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth diogelu data.<sup>1</sup> Rhaid i ni sicrhau bod unrhyw wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi yn berthnasol, yn gywir, yn gymesur ac yn deg.
- 1.5 Mae'r polisi hwn yn nodi'r mathau o wybodaeth y byddwn yn eu cynnwys ar ein cofrestr ac am faint o amser y bydd yn aros ar y gofrestr.<sup>2</sup> Hefyd, mae'n nodi'r wybodaeth y byddwn yn ei chynnwys ar ein rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr a sut byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer.
- 1.6 Nod y polisi yw ein helpu i gyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd trwy roi egwyddorion arweiniol i ni a fydd yn sicrhau, pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am bersonau cofrestredig, ein bod ni'n gwneud hynny mewn ffordd deg a chyfreithlon.

## **2. Cofrestr gyhoeddus a rhestr o bobl y mae eu henwau wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr**

### **Yr holl bersonau cofrestredig**

- 2.1 Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi'r wybodaeth ganlydol am **bob** person cofrestredig:

---

<sup>1</sup> Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cyhoeddi gwybodaeth dan y Polisi hwn yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2018.

<sup>2</sup> Mae hyn yn cyfeirio at y gofrestr gyhoeddus ar ein gwefan.

- a. enw neu enwau<sup>3</sup>
- b. rhif cofrestru
- c. pa ran o'r gofrestr y mae'r person wedi'i gofrestru ynddo
- ch. sir post sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad lle mae'r person yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig (ac eithrio os yw'r tu allan i'r DU)<sup>4</sup>
- d. os yw'r person cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, y sir post lle mae'r person cofrestredig yn cymryd rhan mewn cwrs gradd.<sup>5</sup>
- dd. cymwysterau, gwybodaeth neu brofiad a nodwyd yn yr amserlen i Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr).

Bydd y wybodaeth hon ar gael ar y gofrestr trwy gydol cofrestrriad y person.

2.2 Ar gais, byddwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol am berson cofrestredig i aelodau'r cyhoedd:

- teitl swydd;
- dyddiad cofrestru;
- dyddiad adnewyddu, ac, os yw'n berthnasol,
- dyddiad tynnu oddi ar y gofrestr.

### **Pobl sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr**

2.3 Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi rhestr o bobl sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr, yn y modd a'r amser y mae'n eu hystyried yn briodol. Mae'r penderfyniadau yn ymwneud â hyn ar gael yn **Atodiad 1**.

---

<sup>3</sup> Mae hyn yn cynnwys enwau presennol a blaenorol – Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017, adran 3.

<sup>4</sup> Os nad yw person cofrestredig wedi'i gyflogi yn y maes hwn ar hyn o bryd, bydd y blwch hwn yn nodi 'nid yw'n berthnasol'.

<sup>5</sup> Ni ddylid cofnodi enw neu enwau'r myfyrwr ar y gofrestr nes y bydd y Cofrestrydd yn fodlon bod y myfyrwr wedi dechrau cymryd rhan mewn cwrs gradd.

Byddwn yn cydymffurfio â cheisiadau rhesymol am gopi o'r rhestr, neu wybodaeth benodol ohoni.

### **Cofrestr gyhoeddus a manylion am faterion addasrwydd i ymarfer**

- 2.4 Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ddiweddarau'r gofrestr i ddangos gwybodaeth am faterion addasrwydd i ymarfer sy'n ymwneud â phersonau cofrestredig. Hefyd, caniateir i ni gyhoeddi gwybodaeth am achosion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer; fel arfer, rydym ni'n gwneud hyn trwy ddatganiadau i'r wasg neu hysbysiadau ar y dudalen wrandawiadau ar ein gwefan, ond ceir dulliau eraill hefyd.

Mae'r tabl yn **Atodiad 2** yn cofnodi'r wybodaeth addasrwydd i ymarfer y mae angen i ni ei chynnwys ar y gofrestr, yn ogystal â'r wybodaeth na fyddwn yn ei chynnwys.

### **3. Cyhoeddi gwybodaeth am faterion addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan ac mewn datganiadau i'r wasg**

- 3.1 Mae Adran 159 y Ddeddf yn nodi y gall Gofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth i unrhyw berson yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer person cofrestredig os yw'n credu ei fod ym mudd y cyhoedd i wneud hynny.

Caiff yr hawl hon ei chyfyngu pan fydd y mater addasrwydd i ymarfer yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person cofrestredig. Os nad oes cyfyngiadau o'r fath, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan ac yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg am y gwrandawiadau hyn.

- 3.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, hyd yn oed os cawn ein caniatáu i gyhoeddi gwybodaeth am wrandawriad penodol, ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth o'r fath ar ein gwefan neu drwy ddatganiadau i'r wasg. Y Cyfarwyddwr Rheoleiddio neu'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio Cynorthwyol, fydd yn gwneud penderfyniadau am yr achosion hyn ar y cyd â'r Rheolwr Addaswydd i Ymarfer.

## **Prosesau**

### **Achosion addaswydd i ymarfer lle mae iechyd yn sail ar gyfer amhariad**

- 3.3 Os bydd person cofrestredig wedi cael gwrandawriad ffitrwydd i ymarfer gydag iechyd fel sail i'w amhariad, a chanfyddir yr amharwyd ar eu haddaswydd i ymarfer, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar y dudalen gwrandawriadau ar ein gwefan:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr
- canlyniad.

Bydd y wybodaeth hon yn aros ar ein gwefan am gyfnod amhenodol. Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am ei iechyd corfforol neu feddyliol.

- 3.4 Os na welir bod amhariad ar addaswydd y person cofrestredig i ymarfer, ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am y gwrandawriad.
- 3.5 Os yw'r person cofrestredig yn apelio'n llwyddiannus ac mae'r canlyniad yn newid, byddwn yn addasu'r dudalen i ddangos y canlyniad newydd neu, lle bo'n berthnasol, yn dileu'r cofnod.

## Achosion nad ydynt yn cynnwys materion iechyd

3.6 Wythnos cyn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer neu adfer, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar ein gwefan:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr;
- dyddiad y gwrandawriad;
- lleoliad y gwrandawriad
- crynodeb o'r honiadau.<sup>6</sup>

Os bydd yr honiadau'n newid yn ystod gwrandawriad, byddwn yn cyhoeddi'r honiadau wedi'u haddasu ar ein gwefan pan fydd y gwrandawriad ar ben.

3.7 Os bydd person cofrestredig yn destun achos addasrwydd i ymarfer, a gwelir bod amhariad i'w addasrwydd i ymarfer; byddwn yn diweddarau'r gofrestr yn unol â'r wybodaeth yn Atodiad 1 ac, ar ddiwedd y gwrandawriad, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar y dudalen canlyniadau gwrandawriadau ar ein gwefan:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr;
- dyddiad y gwrandawriad;

---

<sup>6</sup> Nid yw gwrandawriadau adfer yn cynnwys honiadau.

- lleoliad y gwrandawriad;
- honiadau;
- canlyniad y gwrandawriad
- rhesymau'r panel.

3.8 Ac eithrio'r honiadau a rhesymau'r panel, bydd y wybodaeth hon yn aros ar ein gwefan am gyfnod amhenodol. Bydd yr honiadau a rhesymau'r panel yn aros ar y wefan yn unol â'r amserlenni a nodir yn Atodiad 2.<sup>7</sup>

3.9 Os bydd person cofrestredig yn apelio'n llwyddiannus ac mae'r canlyniad yn newid, byddwn yn addasu'r dudalen gwrandawriadau i ddangos y canlyniad newydd neu, lle bo'n berthnasol, yn dileu'r cofnod. Byddwn yn ceisio gwneud hyn o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cawsom wybod am y penderfyniad.

3.10 Pan fydd achos addasrwydd i ymarfer wedi dod i ben ac mae'r person cofrestredig wedi cael ei ystyried yn **addas i ymarfer**, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol amdano ar ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawriad gyda'u caniatâd:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr;
- dyddiad a lleoliad y gwrandawriad;
- honiadau;
- canlyniad
- rhesymau'r panel.

---

<sup>7</sup> Mae'r amserlenni'n adlewyrchu ein rôl fel rheoleiddiwr proffesiynol, ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd ac er mwyn dilyn egwyddorion cywirdeb, cymesuredd, tryloywder a thegwch.

3.11 Os nad yw'r person cofrestredig yn rhoi ei ganiatâd i'r uchod (3.10), byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol yn unig amdano ar ein gwefan pan fydd y gwrandawriad yn dod i ben:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr;
- dyddiad a lleoliad y gwrandawriad
- canlyniad.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon ar ein gwefan yn unol â'r amserlen a nodir yn Atodiad 2.

3.12 Os bydd person cofrestredig yn derbyn rhybudd, p'un a yw'n rhybudd gan banel neu swyddog, byddwn yn rhoi manylion am y rhybudd ar y gofrestr a'i dileu pan fydd y rhybudd yn dod i ben.

3.13 Os rhoddir gorchymyn amodol i berson cofrestredig, byddwn yn diweddarau'r gofrestr i ddangos yr amodau a'r cyfnod sy'n berthnasol iddo. Byddwn yn parhau i ddangos bod y person yn ddarostyngedig i orchymyn o'r fath, gyda'r dyddiadau perthnasol trwy gydol cofrestriad y person, Fodd bynnag, efallai byddwn yn dewis dileu manylion yr amodau.

3.14 Os bydd unigolyn, oedd yn destun gorchymyn i'w dynnu oddi ar y gofrestr, wedi gwneud cais i gael ei ddychwelyd i'r gofrestr, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar ein gwefan pan ddaw'r gwrandawriad i ben:



- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- dyddiad y gwrandawriad;
- lleoliad y gwrandawriad;
- honiadau;
- canlyniad
- rhesymau.

Ac eithrio'r honiadau a'r rhesymau, byddwn yn cadw'r wybodaeth hon ar ein gwefan am gyfnod amhenodol. Bydd yr honiadau a rhesymau'r panel yn aros ar y wefan yn unol â'r terfynau amser a nodir yn Atodiad 2.

3.15 Os nad yw iechyd yn sail i'r amhariad, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig wythnos cyn y gwrandawriad:

- enw;
- rhif cofrestru
- honiadau.

Pan ddaw'r gwrandawriad i ben, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cynnwys canlyniad y gwrandawriad hwn a'i rhoi ar ein gwefan; bydd yn aros ar ein gwefan am gyfnod amhenodol.

3.16 Os nad yw iechyd yn sail am amhariad, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig wythnos cyn y gwrandawriad:

- enw,
- rhif cofrestru
- bras fanylion am yr honiadau.

Pan ddaw'r gwrandawriad i ben, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cynnwys canlyniad y gwrandawriad hwn a'i rhoi ar ein gwefan; bydd yn aros ar ein gwefan am gyfnod amhenodol.

## **4 Rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill**

### **Gwybodaeth am bersonau cofrestredig**

4.1 Mewn achosion eithriadol yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd, os bydd person cofrestredig yn ddarostyngedig i Orchymyn Atal Atal dros dro, efallai y byddwn yn anfon y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig at yr holl gyfarwyddwyr awdurdod lleol:

- enw;
- rhif cofrestru
- ac am faint o amser bydd y gorchymyn ar waith.

Yn dilyn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer, efallai y byddwn yn anfon y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig at gyfarwyddwyr awdurdodau lleol:

- enw;

- rhif cofrestru
- manylion am ganlyniad y gwrandawriad.

4.2 Byddwn yn darparu rhestr o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer sydd ar y gweill i swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn chwarterol. Bydd y rhestr hon yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr/cyn-gyflogwr;
- crynodeb o'r honiadau
- dyddiad y gwrandawriad,
- os bod Gorchymyn Atal Dros Dro ar ei cofrestriad,
- tebygolrwydd o sylw yn y cyfryngau a'r wasg.

4.3 Os rhoddir canlyniad neu orchymyn atal dros dro ar berson cofrestredig mewn gwrandawriad terfynol, efallai y byddwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig i'r darparwr data rhanbarthol perthnasol yn yr AGC:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- cyflogwr;
- manylion bras am yr achos

- y canlyniad.

4.4 Os rhoddir cosb neu orchymyn atal dros dro i berson cofrestredig mewn gwrandawriad terfynol, byddwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyrff rheoleiddio gofal cymdeithasol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban am y person cofrestredig:

- enw;
- rhif cofrestru;
- dyddiad geni
- pa ran o'r gofrestr y mae'r person wedi'i gofrestru.

4.5 Os yw'r person cofrestredig mewn 'proffesiwn a reoleiddir' fel y nodir yn y Mutual Recognitions of Professional Qualifications Directive 2005/36/EC ac mae'n destun gorchymyn sy'n cyfyngu neu'n gwahardd eu hymarfer, byddwn yn dilyn y canllawiau a nodir yn ein polisi am hysbysiadau IMI.

4.6 Efallai y byddwn yn rhannu manylion am gymwysterau person cofrestredig gyda chyflogwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru a chyrff rheoleiddio eraill. Byddwn yn darparu gwybodaeth am deitlau cymwysterau a dyddiadau dyfarnu i lofnodwyr Gofal Cymdeithasol Cymru, swyddogion AGC a chyrff rheoleiddio eraill ar gais. Mae hyn yn eu galluogi i wirio a yw'n gymwys i gofrestru neu adnewyddu, a datrys anghydfodau am gymwysterau.

4.7 Byddwn yn datgelu'r manylion canlynol am y person cofrestredig i'w gyflogwr trwy borthol MySocialCare ar ein gwefan:

- enw;
- dyddiad geni;
- rhan ac is-ran y gofrestr;
- taliad cofrestru blynyddol;
- dyddiadau adnewyddu;
- teitl swydd;
- dyddiad dechrau;
- cyfeiriad gwaith,
- amodau cydymffurfio.

Bydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyflogwr am hyd at 12 mis ar ôl i'r person gael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Mewn achosion o'r fath, byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth am y dyddiad dileu, a'r rheswm dros wneud.

- 4.8 Pan fyddwn yn ymgymryd â'n dyletswydd statudol i atgyfeirio person cofrestredig neu anghofrestredig i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), bydd yn darparu'r wybodaeth y gellir gofyn amdani dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 a Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 i'r DBS.
- 4.9 Cawn rannu manylion am yr honiadau addasrwydd i ymarfer sy'n ymwneud ag ymgeiswyr neu bersonau cofrestredig gyda chyrrff rheoleiddio neu sefydliadau addysg eraill.
- 4.10 Os bydd person cofrestredig yn apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Safonau Gofal) yn erbyn penderfyniad Gofal Cymdeithasol Cymru, gallwn rannu ei fanylion â'r tribiwnlys.

### **Gwybodaeth am achwynwyr**

- 4.11 Efallai y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cyhoeddi manylion yr achwynydd.
- 4.12 Os yw'r achwynydd yn unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, ni fyddwn yn cyhoeddi ei enw ac ni fydd unrhyw benderfyniadau am wrandawiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn caniatáu i rywun adnabod yr achwynydd.
- 4.13 Efallai byddwn yn trosglwyddo manylion yr achwynydd i gyrrff rheoleiddio eraill, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu gorff apelio, ond byddwn yn gwneud hynny'n gyfrinachol.

### **Gwybodaeth am dystion**

- 4.14 Bydd manylion am dystion, a all gynnwys eu henw, eu galwedigaeth a'u gweithle, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn y gwrandawriad, ond ni fyddwn yn eu cyhoeddi fel rhan o wrandawriad addasrwydd i ymarfer a wneir yn gyhoeddus.
- 4.15 Os yw'r tyst yn unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau neu sy'n cael ei ddsbarthu fel tyst bregus, ni fydd ei enw'n cael ei gyhoeddi, ac ni fydd unrhyw fanylion a gyhoeddir am yr achos yn cynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu i'r tyst gael ei adnabod.
- 4.16 Gellir trosglwyddo manylion am y tyst i gorff rheoleiddio arall, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu i gorff apelio yn gyfrinachol.

## **Gwybodaeth a all ymddangos wrth ddefnyddio peiriannau chwilio ar y rhyngwrwyd**

- 4.17 Caiff gwybodaeth am wrandawiadau ei thynnu oddi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â'r polisi hwn. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn cael ei 'storio' gan beiriannau chwilio ar y rhyngwrwyd fel Google. Mae hyn yn cynnwys tynnu llun o'r dudalen we ar adeg benodol a'i storio, a'i hail-lwytho o bryd i'w gilydd. Gallai hyn olygu y gall y wybodaeth sydd wedi'i thynnu oddi ar y wefan dan y polisi hwn ymddangos ar beiriant chwilio ar y rhyngwrwyd. Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru'n gallu atal hyn rhag digwydd.

## ATODIAD 1

### Manylion am y penderfyniadau a ddylai gael eu cynnwys yn y rhestr o bersonau sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr:<sup>8</sup>

\*Rhaid i gofnod ar y rhestr o bersonau sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr ddangos:

- Enw'r person,
- Y dyddiad y cafodd y person ei dynnu oddi ar y gofrestr, a
- Pha un o'r amgylchiadau yn adran 110(2) neu (4) y Ddeddf a achosodd i'w gofnod ar y gofrestr gael ei ddileu. Caiff y rhain eu dangos yn y tabl isod

<b>Adran yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</b>	<b>Math o benderfyniad</b>	<b>Beth i'w gynnwys</b>
138(9)	Tynnu oddi ar y gofrestr ar ôl canfod amhariad	*Y wybodaeth a nodir ym mhwyntiau 'a', 'b' a 'c' uchod
152(8)(d) (dileu ar ôl adolygu'r ymgymeriadau) 153(9)(ch) (dileu ar ôl adolygu'r gorchmynion cofrestru amodol) 154(8)(ch) (adolygu'r gorchmynion atal dros dro)	Tynnu oddi ar y gofrestr mewn achos adolygu ar ôl canfod amhariad  Sylwer: ni ellir gwneud cofnod nes y bydd y penderfyniad wedi cael ei weithredu dan adran 141(5) neu 157(6)	Y wybodaeth a nodir ym mhwyntiau 'a', 'b' a 'c' uchod
135 – dyma ddilead gan banel addasrwydd i ymarfer, ar ôl cytuno ar ddatganiad o ffeithiau, ond heb ganfod amhariad*  *oni bai ei fod yn cael ei wneud dan adran 138 (sy'n croesgyfeirio ag adran 135). Mae'n yn ddileu ar ôl canfod amhariad	Dileu trwy gytundeb (cydsyniol) – cytuno ar ddatganiad ond nid yw'r amhariad yn cael ei drafod  *oni bai ei fod yn cael ei wneud dan adran 138 (sy'n croesgyfeirio ag adran 135). Mae hyn yn ddileu ar ôl canfod amhariad	Y wybodaeth a nodir ym mhwyntiau 'a', 'b' a 'c' uchod  a  Datganiad o ffeithiau a gytunwyd dan adran 135(2)
152(2) (adolygu ymgymeriadau)	Dileu trwy gytundeb - amhariad	Y wybodaeth a nodir ym mhwyntiau 'a', 'b' a 'c' uchod

<sup>8</sup> Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016



153(2) (adolygu'r gorchymyn cofrestru dros dro) 154(2) (adolygu atal dros dro) 155(5) adolygu atal dros dro amhenodol)		a Datganiad o ffeithiau a gytunwyd dan adran 150(2)
--	--	--

## ATODIAD 2

### Gwaredu achosion addasrwydd i ymarfer a faint o amser y mae ar y gofrestr:

Gwarediad gan banel addasrwydd i ymarfer neu banel gorchmynion atal dros dro a pha adran o'r Ddeddf	Beth i'w gynnwys yn y cofnod ar y gofrestr	Pryd i ddileu'r cofnod a beth i'w ddileu
*138 canfyddiad o amhariad	<p>a) dangos bod amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer, a</p> <p>b) nodi'r ffordd y mae'r panel addasrwydd i ymarfer wedi gwaredu'r mater dan adran 138 neu unrhyw un o adrannau 152 i 155.</p>	Dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad – gweler y cofnod perthnasol yn y tabl.
*152 gwarediadau gan banel addasrwydd i ymarfer (adolygu ymgymeriadau)	<p>a) dangos bod amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer, a</p> <p>b) nodi'r ffordd y mae'r panel addasrwydd i ymarfer wedi gwaredu'r mater</p>	Dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad – gweler y cofnod perthnasol yn y tabl.
*153 (adolygu gorchmynion cofrestru amodol)	<p>a) dangos bod amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer, a</p> <p>b) nodi'r ffordd y mae'r panel addasrwydd i ymarfer wedi gwaredu'r mater</p> <p>Os yw'r panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn cofrestru amodol, rhaid i'r cofnod nodi manylion yr amodau, ac eithrio rhai sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person.</p>	Pan fydd y cofnod perthnasol yn dod i ben, <b>rhaid iddo barhau i ddangos bod y person yn destun gorchymyn o'r fath, a'r dyddiadau yr roedd y gorchymyn mewn grym</b> , ond gall y Cofrestrydd ddileu manylion yr amodau a osodwyd dan y gorchymyn.
*154 (adolygu gorchmynion atal dros dro)	<p>a) dangos bod amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer, a</p> <p>b) nodi'r ffordd y mae'r panel addasrwydd i ymarfer wedi gwaredu'r mater.</p>	Dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad – gweler y cofnod perthnasol yn y tabl.

<b>Gwarediad gan banel addaswydd i ymarfer neu banel gorchmynion atal dros dro a pha adran o'r Ddeddf</b>	<b>Beth i'w gynnwys yn y cofnod ar y gofrestr</b>	<b>Pryd i ddileu'r cofnod a beth i'w ddileu</b>
*155 (adolygu gorchmynion atal dros dro amhenodol) penderfyniad ar ôl canfod yr amhariad	a) dangos bod amhariad ar addaswydd y person i ymarfer, a b) nodi'r ffordd y mae'r panel addaswydd i ymarfer wedi gwaredu'r mater.	Dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad – 155(9) cadarnhau'r atal dros dro amhenodol 155(10) peidio â gweithredu ymhellach, rhoi rhybudd na gwneud gorchymyn cofrestru amodol.  Gweler y cofnodion perthnasol yn y tabl i weld beth/pryd i'w ddileu.
144 penderfyniad i wneud gorchymyn atal dros dro	Rhaid i'r cofnod:  a) nodi'r math o orchymyn atal dros dro a wnaed neu a gadarnheir, neu (yn achos amrywiad dan adran 147) yr amrywiad a wnaed, ac  b) os yw'r gorchymyn yn orchymyn cofrestru amodol atal dros dro, dylid nodi pa amodau a osodwyd ar gofrestrriad y person, ac eithrio unrhyw amodau sy'n ymwneud â'i iechyd corfforol neu feddyliol.	Rhaid i'r Cofrestrydd ddileu'r wybodaeth hon os caiff y gorchymyn atal dros dro ei ddirymu dan adran 149 neu beidio â chael effaith mewn ffordd arall.

<p>147 penderfyniad i gadarnhau neu amrywio gorchymyn atal dros dro</p>	<p>Rhaid i'r cofnod:</p> <p>a) nodi'r math o orchymyn atal dros dro a wnaed neu a gadarnheir, neu (yn achos amrywio gorchymyn dan adran 147) yr amrywiad a wnaed, ac</p> <p>b) os yw'r gorchymyn yn orchymyn cofrestru amodol atal dros dro, dylid nodi pa amodau a osodwyd ar gofrestrriad y person, ac eithrio unrhyw amodau sy'n ymwneud â'i iechyd corfforol neu feddyliol.</p>	<p>Rhaid i'r Cofrestrydd ddileu'r wybodaeth hon os caiff y gorchymyn atal dros dro ei ddirymu dan adran 149 neu beidio â chael effaith mewn ffordd arall.</p>
<p>Gorchymyn atal dros dro</p>	<p>Os bydd panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn atal dros dro sydd wedi peidio â chael effaith, rhaid i'r cofnod perthnasol barhau i ddangos bod y person yn ddarostyngedig i orchymyn o'r fath, a'r dyddiadau yr oedd y gorchymyn yn cael effaith.</p>	<p><b>Aros ar y PFR tra bod y person yn aros ar y gofrestr.</b></p>
<p>Penderfyniad i gytuno ar ymgymeriadau – cyfaddef yr amhariad</p> <p>136(1) 152(5) or (6) 153(4) 154(4) 155(7)</p>	<p>Lle bydd panel addasrwydd i ymarfer wedi cytuno ar yr <b>ymgymeriadau</b> gyda'r person cofrestredig, rhaid i'r cofnod:</p> <p>a) nodi bod y person yn cyfaddef bod amhariad i'w addasrwydd i ymarfer, a</p> <p>b) rhoi manylion am yr ymgymeriadau y cytunwyd arnynt, ac eithrio unrhyw ymgymeriadau yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person.</p>	<p>Rhaid i'r cofnod am yr ymgymeriadau hyn gael ei ddileu pan fyddant yn peidio â chael effaith.</p> <p><b>Os bydd y person cofrestredig yn darfod neu'n cael ei ddileu'n wirfoddol tra y bydd ymgymeriadau ar waith, bydd yr ymgymeriadau'n parhau i gael effaith ac yn aros ar y gofrestr. Dyma bwynt technegol sy'n cwmpasu sefyllfaoedd pan</b></p>

		fydd y person yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr yn nes ymlaen – bydd yr ymgymeriadau yn parhau i fod ar waith, ac yn parhau yn y modd hwn nes iddyn nhw gael eu rhyddhau/dirymu.
Penderfyniad i adfer y person i'r rhan berthnasol o'r gofrestr 98(1)(a)	Rhaid i'r cofnod nodi bod y person wedi cael ei ddileu o'r gofrestr ar ôl canfod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.	<b>Parhau i fod ar waith tra bod enw'r person ar y gofrestr.</b>
137 penderfynu rhoi cyngor neu rybudd ar ôl canfod <b>dim amhariad</b>  152(3) 153(3) 154(3) 155(6)	Rhaid i'r cofnod ar y gofrestr nodi:  a) cafwyd canfyddiad nad oes amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer, a b) bod y panel addasrwydd i ymarfer wedi rhoi cyngor neu rybudd (beth bynnag yw'r achos) i'r person.	Os bydd y panel addasrwydd i ymarfer wedi rhoi rhybudd, rhaid dileu'r cofnod am y rhybudd ar ôl i'r rhybudd ddod i ben. (Mae'r cofrestryddion yn dweud: Rhaid i'r Cofrestrydd ddileu'r wybodaeth am y rhybudd ar ôl i gyfnod o'r fath ddod i ben, dan gyfarwyddyd Gofal Cymdeithasol Cymru). Rydym ni wedi penderfynu gwneud hyn pan fydd y cyfnod yn dod i ben.  Os rhoddir cyngor ac nid yw'r panel yn nodi'r cyfnod perthnasol, dylai aros ar y gofrestr am 2 flynedd.

<b>Gwaredu ar lefel swyddog</b>	<b>Beth i'w gynnwys yn y cofnod</b>	<b>Am faint o amser fydd y wybodaeth hon yn aros ar y y gofrestr</b>
Rhybudd – adran 126 (3)(c)	Rhaid i'r cofnod nodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>a) nad yw'r mater yn ymwneud ag amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer wedi cael ei bennu, ac</li> <li>b) y rhoddwyd rhybudd gan Ofal Cymdeithasol Cymru</li> </ul>	Dileu pan fydd y rhybudd yn dod i ben.  (Mae'r cofrestryddion yn dweud: <i>Rhaid i'r Cofrestrydd ddileu'r wybodaeth am y rhybudd ar ôl i gyfnod o'r fath ddod i ben, dan gyfarwyddyd Gofal Cymdeithasol Cymru</i> ).  Rydym ni wedi penderfynu gwneud hyn pan fydd y rhybudd yn dod i ben.
Ymgymeriadau – adran 126(3)(ch)	Rhaid i'r cofnod nodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>a) nad yw'r mater yn ymwneud ag amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer wedi cael ei bennu, a</li> <li>b) nodi pa ymgymeriadau y cytunwyd arnynt, ac eithrio unrhyw ymgymeriadau yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y person.</li> </ul>	Dileu pan fydd yr ymgymeriadau yn peidio â chael effaith.

**Penderfyniadau addasrwydd i ymarfer a fydd yn dod yn rhan o'r rhestr 'Personau wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr'**

**Gorchymyn dileu dan**

**138 (9) yn ddarostyngedig i is-adran (10), -**

canfod amhariad, gorchymyn dileu

(amhariad sy'n seiliedig ar fwy na rhesymau iechyd yn unig)

**152(8)(d)**

panel yn dileu ar ôl dirymu'r ymgymeriadau a phenderfynu gwneud gorchymyn dileu  
(amhariad sy'n seiliedig ar fwy na rhesymau iechyd yn unig)

**153(9)(d)** panel yn dileu ar ôl dirymu'r gorchymyn cofrestru amodol

(amhariad sy'n seiliedig ar fwy na rhesymau iechyd yn unig)

**154(8)(d) yn ddarostyngedig i is-adran (9)**, panel yn dileu ar ôl dirymu'r gorchymyn atal dros dro

(amhariad sy'n seiliedig ar fwy na rhesymau iechyd yn unig)

**Gorchymyn dileu gwirfoddol dan:**

**135(2)** Dileu trwy gytuno ar ddatganiad o ffeithiau, gall y panel wneud gorchymyn i ddileu'r cofnod

**152(2)** dileu trwy gytundeb dan adran 92, gall y panel wneud gorchymyn i ddileu'r cofnod.

**153(2)** dileu trwy gytundeb dan adran 92, gall y panel wneud gorchymyn i ddileu'r cofnod.

**154(2)** dileu trwy gytundeb dan adran 92, gall y panel wneud gorchymyn i ddileu'r cofnod.

**155(5)** dileu trwy gytundeb dan adran 92, gall y panel wneud gorchymyn i ddileu'r cofnod.

**126(3)(d)** dileu trwy gytundeb dan adran 92 – (lefel swyddog) – mae hyn yn berthnasol os bydd cais am ddileu trwy gytundeb dan yr adran hon wedi cael ei atgyfeirio i banel addaswydd i ymarfer dan reolau a lunnir dan adran 92 (3). Mae'n berthnasol os yw'r panel addaswydd i ymarfer wedi ymdrin â'r atgyfeiriad dan adran 135.